Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn ymwneud â chwynion cyffredinol am ysgolion.

Nid oes gan yr Awdurdod rôl statudol o ran datrys cwynion am ysgolion gan mai Pennaeth a Chorff Llywodraethu pob ysgol sydd â'r cyfrifoldeb hwnnw.

Felly **ni all** yr Awdurdod ystyried cwynion ynghylch unrhyw gamau a gymerwyd gan ysgol neu ei Chorff Llywodraethu mewn perthynas â hyfforddiant, ymddygiad, cwricwlwm, trefniadaeth fewnol, rheolaeth neu ddisgyblaeth.

Mae'n ofynnol bod gan bob ysgol Bolisi Cwynion. Mae gennych hawl i ofyn am gopi a dilyn y canllawiau a nodir ynddo os ydych am wneud cwyn.

Dylid cyfeirio cwynion ynghylch ysgolion yn uniongyrchol i Bennaeth yr ysgol dan sylw, neu i Gadeirydd y Corff Llywodraethu. Mae'r manylion cyswllt ar gael ar y wefan ganlynol:

http://online.carmarthenshire.gov.uk/cccapps/cymraeg/school_search/school_search.asp

Mae systemau a gweithdrefnau eraill ar gael i ddelio gyda chwynion mewn perthynas ag apelau ysgol, eithriadau ysgol ac Anghenion Addysgol Arbennig. I gael mwy o wybodaeth mewn perthynas â'r elfennau hyn gofynnir i chi gysylltu â:

AAA - Margaret Denholm, Rheolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol 01267 246451
Gwahardd - Anne Harrison Cydgysylltydd Rheoli Ymddygiad 01267 246452
Apelau Derbyn - Llew Thomas, Rhwydwaith Ysgolion, Rheolwr Derbyniadau a Llywodraethu 01267 246469

Rhagor o Wybodaeth

Gall y Ganolfan Cyngor am Addysg roi cyngor i rieni ynghylch amrywiol faterion yn ymwneud ag ysgolion, yn cynnwys bwlian, derbyniadau ysgol, gwaharddiadau ac anghenion addysgol arbennig. Y rhif ffôn i gael cyngor cyffredinol yw 0808 800 5793 a'r cyfeiriad ar y we yw http://www.ace-ed.org.uk/